


John Cledwyn Davies



Ganed John Cledwyn Davies mewn bwthyn bach o'r enw "Canol Llan" ym mhentref Llangernyw ar y 29ain o Fehefin, 1868. Mae plac ar wal y tŷ yn dynodi hyn, ond erbyn heddiw enw'r tŷ yw Disgynfa. Ei dad oedd Robert Davies, saer a gwneuthurwr olwynion trol. Roedd Catherine ei fam yn enedigol o Lanfair T.H.

Wedi'r briodas, aeth ei rieni i fyw i un o fythynnod y Cwm, Llangernyw, lle ganed eu plentyn cyntaf, Margaret, yn 1860. David oedd yr ail, a John Cledwyn oedd yr ieuengaf.

Tua 1871 symudodd y teulu i "Ty'n yr Erw", Gwytherin, lle bu John Cledwyn yn mynychu Ysgol Gwytherin. Yn unarddeg oed enillodd y brif ysgoloriaeth i Ysgol Ramadeg Llanrwst.

Bu farw ei dad, Robert Davies, yn 1885 gan adael ei weddw yn gyfrifol am anfon John Cledwyn i Goleg Prifysgol Bangor yn fuan wedyn, ac yna i Brifysgol Caergrawnt. Arhosodd gweddill y teulu yn Nhy'n yr Erw am rai blynyddoedd, Margaret y ferch yn gwnio a David yn dilyn crefft ei dad yn gweithio fel saer.

Agorodd gyrfa ddisglair o flaen John Cledwyn. Bu'n aelod o gyngor Sir Ddinbych ac yn gweithredu ar Bwyllgor Addysg y Sir. Bu'n athro yng Ngholeg y Bala am dymor a daeth i amlygrwydd fel pregethwr. Bu hefyd yn Ynad Heddwch ac yn aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Ddinbych o 1922-1923. Er ei fod yn Fargyfreithiwr, treuliodd y rhan fwyaf o'i yrfa ym myd addysg, yn bennaf yn brifathro Ysgol Ramadeg Treffynnon, ac yna fel Cyfarwyddwr Addysg cyntaf Sir Ddinbych. Roedd yn frwdfrydig dros gadw ysgolion gwledig ar agor ac ef a fu'n gyfrifol am gael codi Ysgol Uwchradd Pentrefoelas.

Dengys cyfrifiad 1911 ei fod yn byw ym Mhlas yn Dre, Rhuthun, gyda'i briod Louise a'u merch Katherine Mary.

Erbyn y 1930au roedd y teulu yn byw yn Tyddyn Parc, ger Dinbych.

Bu farw J. C. Davies ar Ragfyr 31 1952 ac fe'u claddwyd ym mynwent yr Eglwys Wen, Dinbych.

John Cledwyn Davies was born in a small cottage called "Canol Llan" in the village of Llangernyw on June 29th 1868. The house is now called "Disgynfa" where there is a plaque on the wall to denote the fact.

His parents were the carpenter and wheelwright Robert Davies from Llangernyw and Catherine from Llanfair T. H.

After their marriage they moved to one of the Cwm Cottages and their eldest child, Margaret, was born there in 1860. David was their second child and John Cledwyn was the youngest.

In about the year 1871 the family moved to "Ty'n yr Erw", Gwytherin, from where John Cledwyn went to Gwytherin school. Aged 11 he won the main scholarship to Llanrwst Grammar School.

His father died in 1885 leaving his widowed mother to send John Cledwyn to Bangor University and then on to the University of Cambridge. The rest of the family remained at "Ty'n yr Erw"; Margaret working as a seamstress and David following in his father's footsteps as a carpenter.

John Cledwyn had a bright future ahead of him. He became a member of Denbighshire County Council and worked for the Board of Education. He lectured at Bala College for a time and was also a well known preacher. He was also a J. P. and a Liberal Member of Parliament from 1922-1923. Even though he was a barrister, he spent most of his career in education, mainly as headmaster of Holywell Grammar School and the first Director of Education for Denbighshire. He was passionate on keeping rural schools open and was responsible for opening the Pentrefoelas Secondary School.

The 1911 census shows that he was by then living at Plas yn Dre, Ruthin, and had been married for 5 years to Louise from Manchester and they had a daughter Katherine Mary. By the 1930's they had moved to Tyddyn Parc near Denbigh.

J. C. Davies died on December 31st 1952 and was buried at St Marcella's church, Denbigh.

Canol Llan, Llangernyw



Ty'n yr Erw, Gwytherin

